# Dogfen ir Cyhoedd

Mr Richard Parry Jones, BA, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO | | PARTNERSHIP AND REGENERATION SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD IAU, 12 MAWRTH 2015 am 2.00 o'r gloch | | THURSDAY, 12 MARCH, 2015 at 2.00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor | Mrs. Mairwen Hughes 01248 752516 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**
Cynghorwyr / Councillors:-

**Annibynnol / Independent**

D R Hughes (Cadeirydd/Chair), W T Hughes, Richard Owain Jones a Dafydd Rhys Thomas

**Plaid Cymru / The Party of Wales**

John Griffith, Carwyn Jones, Alun W Mummery (Is-Gadeirydd/Vice-Chair) a Dylan Rees

**Plaid Lafur Cymru/Wales Labour Party**

Sedd Wag/Vacant Seat

**Heb Ymuno / Unaffiliated**

R.Ll.Jones,

**Aelodau Ychwanegol/Additional Members (gyda hawl pleidleisio ar faterion addysg/with voting rights in respect of educational matters)**

**Parch./Rev. Robert Townsend (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales) and Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig/The Roman Catholic Church)**

**Aelod Cyfetholedig/Co-opted Member (Dim Hawl Pleidleisio/No Voting Rights)**
Mr Gerallt Llewelyn Jones ( Rheolwr Gyfarwyddwr/Managing Director - Mentor Môn)

**R H A G L E N**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 COFNODION** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno, i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfod a gafwyd ar 14 Ionawr, 2015.

**4 BIL LLEISIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL A BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD A MÔN** (Tudalennau 9 - 12)

Cyflwyno adroddiad gan yr Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd a Môn mewn perthynas â'r uchod.

**5 DIWEDDARIAD BLYNYDDOL Y BARTNERIAETH DIOGELWCH CYMUNEDOL** (Tudalennau 13 - 22)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol, Gwynedd ac Y mewn perthynas â'r uchod.

**6 CYNIGION AR GYFER GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH ER MWYN SICRHAU GWELLIANNAU I'R A5025 A PHRIFFYRDD ERAILL I HWYLUSO CYNIGION DATBLYGU PWER NICLEAR HORIZON** (Tudalennau 23 - 30)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Amgylchedd a Gwasanaethau Technegol mewn perthynas â'r uchod.

**7 CYLLIDEB BLYNYDDOEDD CYNNAR** (Tudalennau 31 - 34)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Addysg mewn perthynas â'r uchod.

**8 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD NEU IS-GADEIRYDD**

**9 RHAGLEN WAITH** (Tudalennau 35 - 40)

Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Sgriwtini.

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd 14 Ionawr 2015

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cyng. Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)<br>Y Cyng. Alun Wyn Mummery (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr John Griffith, R Ll Jones, Richard Owain Jones a Dylan Rees |
| **WRTH LAW:** | Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned)<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant (ar gyfer eitemau 5 a 6)<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitemau 5 a 6)<br>Swyddog Sgriwtini (GR)<br>Swyddog Pwyllgor (MEH) |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr William Thomas Hughes, Carwyn Jones, Dafydd Rhys Thomas.<br>Mr. Keith Roberts (Yr Eglwys Gatholig).<br>Mr. Gerallt Ll. Jones (Rheolwr-gyfarwyddwr – Menter Môn). |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Arweinydd y Cyngor (Eitem 4)<br>Deilydd Portffolio (Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai)<br>Deilydd Portffolio Cysgodol (Gwasanaethau Cymdeithasol a Thai)<br>Uwch Reolwr Partneriaeth (Gwynedd a Môn) (AD) (Eitem 4)<br>Ms. Vicky Poole – Cyfarwyddwr Rhanbarthol – Gogledd Cymru (AGGCC) (Eitem 5)<br>Mr. Mark Roberts – AGGCC (Eitem 5) |

---

**1 YMDDIHEURIADAU**

Nodwyd yr ymddiheuriadau fel uchod.

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Ann Griffith ddiddordeb personol yng nghyswllt Eitem 6.

**3 COFNODION**

Cadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2014.

**4 TREFNIADAU SGRIWTINI'R BWRDD GWASANAETH LLEOL AR Y CYD ARFAETHEDIG**

Cyflwynwyd – adroddiad ar y cyd gan yr Uwch Reolydd Partneriaethau, Gwynedd a Môn, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Cyngor Gwynedd a'r Swyddog Sgriwtini mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Swyddog Sgriwtini bod adroddiad ar y cyd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a CfPS yn 2010 o'r enw 'Sgriwtineiddio Partneriaethau Aml-Asiantaethol' yn amlinellu rhai o'r gwersi a ddysgwyd o'r broses o ddatblygu trefniadau sgriwtini Byrddau Gwasanaeth Lleol ac roeddent yn nodi rhai pwyntiau pwysig i'w cadw mewn cof pan yn datblygu trefniadau. Roedd y rhain wedi'u hamlinellu yn yr adroddiad.

Er mwyn bod mewn sefyllfa i gynghori aelodau ar yr opsiynau posibl ar gyfer sgriwtineiddio Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd a Môn, roedd Grŵp Prosiect Tasg a Gorffen Aml-Asiantaethol wedi ei sefydlu. Roedd yr aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, Parc Cenedlaethol Eryri a Swyddogion Sgriwtini o'r ddau Gyngor. Er mwyn cael agwedd annibynnol fe wahoddwyd y Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus i wneud sylwadau ynglŷn â'r ystod o opsiynau y gellir eu hystyried gan aelodau etholedig y ddau Awdurdod Lleol. Roedd y Grŵp Tasg a Gorffen hefyd wedi ceisio sicrhau safbwyntiau Medrwn Môn a Mantell Gwynedd fel sefydliadau ambarél oedd yn cynrychioli diddordebau'r trydydd sector. Yng ngoleuni ei drafodaethau, roedd Grŵp Tasg a Gorffen Aml-Asiantaethol y Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus yn cynnig bod tri opsiwn i'r Aelodau Etholedig eu hystyried sef :-

Opsiwn A – Cadw trefniadau'r Pwyllgorau Sgriwtini yng Nghyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd fel y maent ar hyn o bryd.
Opsiwn B – Sefydlu Panel Sgriwtini ar y cyd ar gyfer Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd a Môn.
Opsiwn C – Sefydlu Pwyllgor Sgriwtini ar y cyd ar gyfer Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd a Môn.

Er bod i bob opsiwn ei fanteision a'i anfanteision ei hun, roedd y Grŵp Tasg a Gorffen Aml-Asiantaethol yn unfrydol y dylid cynnig Opsiwn B fel yr opsiwn a ffefrir i'w ystyried gan Aelodau Etholedig Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn.

Gan ddibynnu ar ba opsiwn a gâi gefnogaeth gan Aelodau Etholedig y ddau Gyngor, y cam nesaf fyddai i'r Grŵp Tasg a Gorffen Aml-Asiantaethol ail-ymgynnull er mwyn ystyried trefniadau ymarferol fel aelodaeth y fforwm sgriwtini ar y cyd, ei weithrediad a threfniadau hyfforddi, trefn y cyfarfodydd a lleoliad ac ati. Byddai'r Ganolfan ar gyfer Sgriwtini Cyhoeddus yn parhau i gynnig cefnogaeth a mentora.

Dywedodd y Swyddogion y byddai angen enwebu 3 Aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar Banel Sgriwtini'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Roedd yr Aelodau yn cefnogi Opsiwn B sef sefydlu Panel Sgriwtini ar y cyd ar gyfer BGLl Gwynedd a Môn gyda'r aelodaeth oedd wedi ei nodi yn Atodiad 2. Fodd bynnag, roeddid hefyd yn ystyried y dylai diddordebau Lleisiau Cymunedol Gwynedd a Môn gael eu cynrychioli ar y Panel. Dywedodd y Swyddogion eu bod yn credu y byddai'r gynrychiolaeth o'r trydydd sector ar y Panel arfaethedig yn datrys y mater hwnnw.

- Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â phwy fyddai'n gweinyddu'r Panel Sgriwtini BGLl. Dywedodd y Swyddogion y byddai angen trafod y mater yn y cyfarfod cyntaf o'r Panel Sgriwtini BGLl.

- Cafwyd trafodaeth ymysg yr Aelodau ynglŷn ag enwebu Aelod Etholedig fel dirprwy ar y Panel Sgriwtini BGLl.

Dywedodd y Swyddogion y byddai'r adroddiad hwn yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Sgriwtini Corfforaethol Cyngor Gwynedd yn y cyfarfod a gynhelir ar 15 Ionawr 2015.

**PENDERFYNWYD :-**

- **Bwrw ymlaen gydag Opsiwn B – sefydlu Panel Sgriwtini ar y cyd ar gyfer Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn a gofyn i'r Swyddogion symud ymlaen i wneud y trefniadau ymarferol, trefn y cyfarfodydd a'r lleoliad.**

- **Enwebu'r Aelodau canlynol fel cynrychiolwyr Cyngor Sir Ynys Môn ar Banel Sgriwtini'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol :-**

  **Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio**
  **Y Cynghorydd John Griffith**
  **Y Cynghorydd Dylan Rees - Dirprwy**

**GWEITHREDU: Adroddiad diweddaru i'w gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini hwn yn y dyfodol.**

**5 FFRAMWAITH ADRODD BLYNYDDOL Y CYNGOR (ARCF) ADOLYGIAD A GWERTHUSIAD ARCHWILIAD GWASANAETHAU CYMDEITHASOL AWDURDOD LLEOL**

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Ms. Vicky Poole, Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Gogledd Cymru) AGGCC a Mr. Mark Roberts o AGGCC i'r cyfarfod.

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned) mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned) bod Fframwaith Adrodd Blynyddol y Cyngor yn fframwaith a gytunwyd arno yng Nghymru er mwyn gwerthuso, mewn dull cyhoeddus tryloyw, berfformiad y swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob Awdurdod Lleol. Roedd y llythyr yn cydnabod y cynnydd a wnaed gan yr Awdurdod tra'n amlygu'r angen i gynnal yr ymrwymiad a'r cynnydd gyda'r newidiadau oedd eu hangen. Roedd AGCC yn cyfeirio at y risgiau tebygol parhaol a nodwyd gan yr Arolygiaeth.

Gwneir cyfeiriad penodol at faterion capasiti a'r her i awdurdod bychan wrth geisio rhoi sylw i faint y newid sydd ei angen wrth drawsnewid gwasanaethau gofal cymdeithasol. Mae gwelliannau perfformiad wedi'u gweld yn y Gwasanaethau Plant ond mae risgiau'n parhau o ystyried pa mor amhrofiadol yw'r gweithlu a'r strwythur rheoli. Roedd y llythyr hefyd yn nodi nad oes ond ychydig iawn o

gyfeiriad at y camau sydd eu hangen gan yr Awdurdod mewn paratoad ar gyfer gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Ebrill 2016). Mewn ymateb, dywedir bod hyn yn ffurfio rhan o raglen weithredu genedlaethol a bod yr awdurdod wedi ymgysylltu'n briodol yn y rhaglen honno. Yn ychwanegol at hyn, mae'r rhaglen waith a fabwysiadwyd gan y Cyngor a'r Gwasanaeth yn un sy'n cyd-fynd â dyheadau ac egwyddorion y Ddeddf. Roedd y llythyr yn cydnabod y pwysau ariannol a'r heriau a wynebir gan y Cyngor wrth gwrdd â'i gyfrifoldebau o ran darparu gwasanaeth a chynllunio statudol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae hyn yn gofyn am roi ffocws parhaol ar ddarparu gwasanaethau diogel ac effeithiol tra'n bwrw ymlaen â'r rhaglen newid sydd ei hangen ac sy'n codi o'r rhaglen drawsnewid. Roedd y camau oedd yn codi o'r llythyr wedi'u hymgorffori o fewn y prosesau busnes a rhaglenni blaenoriaethol o fewn Rhaglen Drawsnewid y Cyngor a chynlluniau busnes y gwasanaethau unigol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn credu bod yr hyfforddiant mewn materion Gwasanaethau Cymdeithasol yn benodol i Aelodau newydd ac i Aelodau cyfredol yn hanfodol i amlygu blaenoriaethau a phwysau ar y Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd yn credu bod y seminar i Aelodau Etholedig yng nghyswllt Cartrefi Preswyl yn un hynod o werthfawr.

Dywedodd Mr. Mark Roberts (AGGCC) bod yr Adroddiad Gwerthuso Adroddiad ar gyfer 2013/14 ynghlwm wrth adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol. Nododd bod y Cyngor Sir yn y cyfnod cynnar o weithredu rhaglen drawsnewid uchelgeisiol i'r gwasanaethau oedolion a phlant. Mae'r rhain yn rhaglenni datblygu a newid arwyddocaol i Gyngor bychan ac y mae cyflymder y newid yn cael ei lesteirio gan ddiffyg capasiti. Ar yr un pryd, mae Cyngor newydd wedi ei ethol ac yr oedd trydedd ran ohonynt yn Aelodau a benodwyd o'r newydd. Mae hyn hefyd wedi cael effaith ar gyflymder y newid oherwydd y bu'n bwysig i swyddogion fuddsoddi amser yn sicrhau bod Aelodau Etholedig yn deall y rhaglen drawsnewid yn iawn. Er y cyfyngiadau hyn, mae yna dystiolaeth o gynnydd graddol wedi ei sylfaenu ar gefnogaeth wleidyddol yn arbennig mewn perthynas â'r gwasanaethau i oedolion hŷn. Roedd perfformiad wedi gwella mewn meysydd craidd, yn bennaf mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant er bod diffyg profiad cymharol y gweithlu o fewn y Gwasanaethau Plant yn golygu bod risgiau'n parhau a bod angen parhau i fod yn wyliadwrus. Yn y Gwasanaethau Oedolion, roedd y ffocws a roddwyd ar y gwasanaethau i bobl hŷn wedi golygu diffyg ffocws ar wasanaethau i oedolion ieuengach yn cynnwys pobl ag anableddau corfforol, anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl. Bu'r Cyngor yn agored ynglŷn â'r hyn y mae wedi ei gyflawni gan gydnabod ble y mae ar ei hôl hi gyda'r rhaglen. Mae llawer ar ôl i'w wneud; mae adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth yn dwyn sylw at 50 o flaenoriaethau i'w gweithredu yn y Gwasanaethau Oedolion a 23 yn y Gwasanaethau Plant yn ystod 2014/15.

Er bod Rhaglen Drawsnewid y Cyngor yn cyfateb i fwriadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), ychydig iawn o gyfeiriadau a geir at y Ddeddf yn adroddiad y Cyfarwyddwr. Tra bod adroddiadau manylach y Pennaeth Gwasanaeth yn amlinellu'r datblygiad mewn meysydd yn unol â gofynion y Ddeddf, nid yw'r cysylltiadau hyn yn glir iawn. Mae gan y Cyngor lwyfan cryf i adeiladu arno mewn perthynas ag integreiddio gwasanaethau gyda'r Bwrdd Iechyd yn dilyn datblygu Model Môn dros nifer o flynyddoedd. Mae hyn wedi eu galluogi i sefydlu

Bwrdd Darparu Integredig mewn Partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac sydd yn cael ei ddefnyddio fel peilot ar gyfer y rhanbarth cyfan yng nghyd-destun Datganiad o Fwriad Gogledd Cymru ar gyfer Integreiddio sef darparu gofal cymdeithasol ac iechyd integredig i bobl hŷn ag anghenion cymhleth.

Roedd yr adroddiad yn amlygu'r ymateb i feysydd gwella'r flwyddyn ddiwethaf mewn manylder a meysydd i'w dilyn i fyny gan AGGCC yn y flwyddyn i ddod.

Y prif faterion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Codwyd pryderon ynghylch y meysydd ar gyfer eu gwella yn adroddiad AGGCC h.y. Adolygu proses cymhwyso trothwyon DoLS. Dywedodd Mr. Mark Roberts AGGCC bod meysydd o welliant wedi eu nodi a bod angen codi ymwybyddiaeth a gwella arferion mewn perthynas â DoLS. Mae angen hefyd datblygu fframwaith fonitro ansawdd ar draws y Gwasanaethau Plant ac Oedolion.

- Roedd y Deilydd Portffolio Cysgodol yn ystyried ei fod yn flaenoriaeth cynnwys oedolion ifanc bregus gyda phroblemau iechyd meddwl neu anawsterau dysgu ar y rhestr o sgriwtini yn y dyfodol agos. Nododd ymhellach nad oedd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ddigon gweladwy i'r dinesydd a holodd sut y bydd yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn delio â'r mater. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned) y bydd y Gwasanaeth yn canolbwyntio ar oedolion ifanc bregus. Cyfeiriodd ymhellach at y mater a godwyd yng nghyswllt y Ddeddf Llesiant a nododd ei bod fel Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ystyried nad oedd hwn yn fater cynhennus o fewn adroddiad 2013/14 AGGCC.

- Gofynnwyd cwestiynau ynglŷn â'r toriadau tebygol mewn cyllid i'r Sector Gwirfoddol a'r effaith ar wasanaethau i'r preswylwyr lleol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned) bod gohebiaeth wedi'i hanfon i'r trydydd sector ar oblygiadau'r toriadau 5% mewn cyllid a gofynnwyd iddynt ymateb i'r Cyngor Sir erbyn yr wythnos nesaf i nodi pa effaith y byddai'r toriadau yn eu cael ar y gwasanaethau y maent yn eu darparu.

- Cafwyd sylwadau ynghylch pobl oedrannus yn gofyn am gefnogaeth gan y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd unigrwydd. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymuned) bod Heneiddio'n Dda yn trefnu gweithgareddau i'r oedrannus a nododd ymhellach ei bod hi a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn mynd i drafod y mater hwn yn y dyfodol agos.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a'r sylwadau a nodwyd uchod.**

## 6 DIOGELWCH CORFFORAETHOL (PLANT)

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant mewn perthynas â'r uchod.

Cafwyd adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Plant yn dweud bod angen i'r Awdurdod Lleol gynnal hunanwerthusiad yn flynyddol o'i drefniadau i ddiogelu plant ac i adrodd yn ôl ar ei ganfyddiadau i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol. Roedd Atodiad

1 yn cynnwys yr adroddiad hwnnw.  Roedd yr adroddiad yn nodi'r amcanion cytunedig, y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcanion hyn a meysydd pellach oedd angen sylw.  Roedd yr adroddiad yn cynnwys dadansoddiad o gyfraniad yr Awdurdod at y cyd-destun aml-asiantaethol ac at waith y Bwrdd Diogelu Plant Rhanbarthol, y Grŵp Cyflawni Lleol ac Is-Grwpiau Rhanbarthol cysylltiedig.  Roedd Pennaeth y Gwasanaethau Plant yn dymuno iddo gael ei gofnodi bod Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi trafod yr adroddiad yn ei gyfarfod oedd wedi ei gynnal yn gynharach heddiw.  Roedd y Bwrdd yn croesawu'r adroddiad a bydd yn ystyried yr argymhellion ynddo.

Roedd yr Awdurdod wedi cyflawni gwelliannau yn y Gwasanaethau Plant ac yn y Gwasanaethau Addysg, ac ar hyn o bryd, mae'n symud i gyfnod o ddatblygu a gwella trefniadau diogelu yn gyffredinol. Mae gan y Cyngor Sir Fwrdd Diogelu Corfforaethol a'i rôl yw sicrhau bod dyletswyddau allweddol yr Awdurdod Lleol mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion bregus yn cael eu cyflawni'n ddigonol. Mae polisi'r Awdurdod Lleol ar ddiogelu a'r cynllun gweithredu cysylltiedig wedi eu mabwysiadu.  Er y cafwyd oedi o ran y cynnydd ar y Cynllun Gweithredu yn erbyn y dyddiadau targed gwreiddiol, mae rhai camau allweddol wedi'u cyflawni.  Roedd y camau allweddol wedi'u rhestru yn yr adroddiad i'r Pwyllgor.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth ymhellach bod nifer o drefniadau yn eu lle i sicrhau bod gan y sefydliad wasanaethau ar gyfer cyflawni ei ddyletswyddau diogelu – gwerthusiad blynyddol o bob ysgol gan ddefnyddio cerdyn adrodd diogelu safonol ac ar lefel Gwasanaethau Plant, ceir adroddiad yn ôl ar y dangosyddion perfformiad statudol.  Mae angen i hyn gael ei ymestyn ar sail gorfforaethol.  Felly, ar gyfer 2015/16, bydd pob Pennaeth Gwasanaeth yn gosod amcanion a mesurau diogelu ac, yn ogystal, byddir yn sefydlu Cerdyn Sgorio Diogelu Corfforaethol. Bydd cyflawni amcanion y polisi a'r Cynllun Gweithredu Diogelu o gymorth i gyflwyno sgriwtini mwy effeithiol o ran materion diogelu.

Y prif faterion a godwyd gan Aelodau :-

- Dywedodd y Deilydd Cysgodol ei bod yn falch o ddeall bod y Cyngor Sir ar flaen y gad gyda'r Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd.  Dywedodd y byddai sesiwn briffio fer i Aelodau Etholedig o fudd.
- Holwyd cwestiynau ynglŷn â throsiant staff o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac yn arbennig yn y Gwasanaethau Plant.  Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Plant bod trosiant y staff yn y gwasanaeth wedi sefydlogi dros y flwyddyn ddiwethaf (13/14).

**PENDERFYNWYD :-**

- **Bod y Pwyllgor hwn yn nodi'r trefniadau corfforaethol i weithredu ei Bolisi Diogelu.**
- **Bod y Pwyllgor yn nodi casgliad yr hunan-arfarniad a gyflwynwyd i'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol a'r camau y bwriedir eu cymryd.**
- **Bod y Pwyllgor yn nodi sefydlu'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol.**
- **Bod y Pwyllgor yn sgriwtineiddio'r trefniadau diogelu corfforaethol yn flynyddol.**

- **Bod y Pwyllgor yn nodi bod yr Awdurdod yn disgwyl am adroddiad terfynol adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o drefniadau sicrwydd ac atebolrwydd y Cyngor i sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau diogelu yn eu lle a'u bod yn cael eu dilyn.**

## 7 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD NEU'R IS-GADEIRYDD

Dywedodd y Cadeirydd bod Fforwm Sgriwtini Agored gyda Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Sgriwtini wedi ei gynnal ar 18 Rhagfyr 2014. Roedd dau o'r Cynghorau Cymuned wedi mynegi pa mor bwysig oedd bod y Cyngor yn cyfathrebu'n well gyda Chynghorau Tref a Chymuned. Y pryder a leisiwyd oedd nad oedd Cynghorau Tref a Chymuned bob amser yn gwybod beth oedd rhai o'r penderfyniadau oedd i'w cymryd gan y Pwyllgor Gwaith.

## 8 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd y Rhaglen Waith ddrafft.

Dywedodd y Swyddog Sgriwtini bod cais wedi ei wneud i'r eitemau canlynol gael eu cynnwys ar Raglen Waith y Pwyllgor ar gyfer y cyfarfod nesaf :-

Diogelwch Cymunedol
Uwchraddio'r briffordd i Wylfa Newydd – Contract y Cyngor Sir a Horizon UK.

**PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith ddrafft a chymeradwyo'r ddwy eitem ychwanegol ar Raglen y cyfarfod nesaf.**

Daeth y cyfarfod i ben am 4.00 pm

**Y CYNGHORYDD D. R. HUGHES**
**CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I** | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaethau ac Adfywio |
| **DYDDIAD** | 12/03/15 |
| **TEITL** | **Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Blaenoriaethau Allweddol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn** |
| **PWRPAS** | 1. Briffio'r Pwyllgor Sgriwtini ar oblygiadau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;<br>2. Diweddaru'r Pwyllgor Sgriwtini ar daith drawsnewid y Bwrdd Gwasanaethau Lleol – Blaenoriaethau Allweddol.<br>**3.** Gwahodd sylwadau'r Pwyllgor Sgriwtini. |
| **DEILYDD PORTFFOLIO** | Cynghorydd Ieuan Williams, Arweinydd y Cyngor |
| **AWDUR** | Anwen Davies, Uwch Reolwr Partneriaethau Gwynedd ac Ynys Môn |

**Prif faterion i'w hystyried:**

I. **Mae Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod cyfrifoldebau ar awdurdodau cyhoeddus i brif-ffrydio datblygu cynaliadwy yn eu gwaith. Mae hefyd yn gosod y Byrddau Gwasanaethau Lleol fel ag y maent ar hyn o bryd yn gyrff statudol ac yn gosod cyfrifoldebau penodol arnynt;**
II. **Codi ymwybyddiaeth o'r Bil arfaethedig a'i oblygiadau i Gyngor Sir Ynys Môn;**
III. **Nodi cynnydd hyd yma ar ffrwd gwaith Blaenoriaethau Allweddol Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.**

1. **BIL LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL – MATERION DATBLYGU CYNALIADWY**

1.1 Bwriad y rhan yma o'r ddeddfwriaeth arfaethedig ydy sicrhau fod datblygu cynaladwy'n ystyriaeth ganolig yn y broses o wneud penderfyniadau strategol gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a hefyd sicrhau bod eu trefniadau llywodraethu'n cymryd i ystyriaeth gofynion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Prif amcan y Bil ydy i gyrff cyhoeddus wella **lles economaidd, cymdeithasol** ac **amgylcheddol** Cymru'n unol ag egwyddorion datblygu cynaladwy.

1.2 Mae'r Bil nodi **6 nôd llesiant** sef:

- Cymru ffyniannus (o ran yr economi);
- Cymru wydn (o ran yr amgylchedd);
- Cymru iach;
- Cymru fwy gyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynol; A
- Cymru o ddiwylliant bywiog a'r iaith Gymraeg yn ffynnu.

Bydd disgwyliad ar bob corff cyhoeddus gyhoeddi amcanion llesiant fydd yn anelu at uchafu cyfraniad tuag at wireddu'r nodau yma a chynhyrchu adroddiad blynyddol ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni.

1.3 Gweler y Bil hefyd yn nodi pwysigrwydd dilyn egwyddorion datblygu cynaladwy pan fo cyrff cyhoeddus yn gosod a gweithredu'r amcanion sef:

1.3.1 Pwysigrwydd cydbwyso anghenion tymor byr gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i gwrdd ag anghenion hir dymor;

1.3.2 Mae manteision cymryd ymagwedd integredig trwy ystyried sut:

- Gall amcan effeithio ar bob un o'r nodau lles ac agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol; AC
- Effaith amcanion y corff ar ei gilydd ac ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

1.3.3 Pwysigrwydd cynnwys rhai sydd â diddordeb yn yr amcanion gan geisio barn a chymryd ystyriaeth o'u barn hwy;

1.3.4 Sut y gallai cydweithredu ag unrhyw un arall cynorthwyo'r corff i gyflawni ei amcanion neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion;

1.3.5 Sut y gallai defnyddio adnoddau i atal problemau rhag ddigwydd neu waethygu gyfrannu at gyflawni amcan y corff neu amcanion cyrff eraill.

1.4 Yr hyn sy'n ofynnol ar bob corff cyhoeddus ei wneud nawr ydy gosod amcanion er mwyn gweithredu'r nodau cenedlaethol hynny ac ystyried sut y mae am weithredu gofynion y Mesur. Gallasai'r ymateb i'r ddeddfwriaeth arfaethedig fod yn bell gyrhaeddol iawn ond mae elfen o ddewis ynglŷn â'r graddau y bydd y Cyngor yn gwneud hynny ac ymha ffordd.

1.5 Teg dweud fod nifer o gynghorau eraill a pharciau cenedlaethol eisoes yn gweithredu fel ardaloedd peilot (a elwir yn *"early adopters"*) ar gyfer ymateb i'r gofynion a hynny fel rhan o brosiect a arweinir gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Yn sgîl hynny, awgrymir y camau cychwynnol canlynol:

1.5.1 Disgwyl i ddysgu o brofiad cyrff cyhoeddus eraill cyn ymrwymo i unrhyw drefniadau penodol yn sirol;

1.5.2 Gweithredu'n gymesur ac y dylai trefniadau'r Cyngor ganolbwyntio ar ddwyn ystyriaethau datblygu cynaladwy i drafodion ar brif benderfyniadau'r Cyngor (ee fel y materion a ystyrir/benderfynir gan y Pwyllgor Gwaith);

1.5.3 Dwyn sylw'r gyfundrefn sgriwtini at ofynion y Mesur fel y gall y drefn sgriwtini wirio ystyriaeth y Cyngor o egwyddorion datblygu cynaladwy.

## 2. BIL LLESIANT CENEDLATHAU'R DYFODOL - MATERION Y BWRDD GWASANAETHAU LLEOL A GWAITH PARTNERIAETHOL

**2.1** Bydd y Byrddau Gwasanaethau Lleol yn dod yn **Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus statudol**. Gweler tair haen o aelodau:

a. **Aelodau Statudol** – Yr Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, Y Gwasanaeth Tân ac Achub a Chyfoeth Naturiol Cymru [yr aelodau craidd yma fydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldebau statudol];

b. **Aelodau ar wahoddiad** – cyrff y bydd yn rhaid eu gwahodd sef Gweinidogion Llywodraeth Cymru, Parciau Cenedlaethol, Yr Heddlu a Chomisiynwyr yr Heddlu a'r Trydydd Sector;

c. **Partneriaid eraill** – Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sefydliadau Addysg Uwch a Phellach, Gwasanaeth Prawf a Chynghorau Cymuned.

Ni fydd yr holl bartneriaid felly'n gyfartal i'r dyfodol gyda'r aelodau craidd â'r cyfrifoldeb statudol.

**2.2** Bydd cyfrifoldeb arnom i lunio **Cynllun Llesiant** (i gymryd lle'r Cynllun Integredig Sengl) a fydd yn cyd-redeg gyda chylchoedd etholiadol llywodraeth leol. Wrth

lunio'r Cynllun, bydd yn ofynnol ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus geisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol a'i anfon at Weinidogion, Yr Archwilydd Cyffredinol a phwyllgor sgriwtini lleol. Bydd y Cynllun Llesiant yn seiliedig ar **asesiad anghenion** y bydd yn rhaid ei gwblhau flwyddyn cyn cyhoeddi'r Cynllun ac y bydd disgwyliad i ymgynghori ar y cynnwys gyda'r Comisiynydd ac eraill (fel y manylir eisoes yn y paragraff hwn).


**2.3** Disgwylir y bydd pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn sefydlu amcanion llesiant i'w cynnwys yn y Cynllun Llesiant ac yn adrodd yn flynyddol i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Gweinidogion, Yr Archwilydd Cyffredinol a phwyllgor sgriwtini lleol. Dylid nodi bod hyn yn ogystal â'r gofynion blynyddol ar y cyrff cyhoeddus unigol o dan y Mesur.

**2.4** Ni fydd Gweinidogion yn gorfod cymeradwyo'r Cynllun ond byddant yn medru cyfeirio cynlluniau yr ystyrir yn "annigonol" neu unrhyw dan berfformiad i bwyllgor sgriwtini lleol a fydd wedyn yn gorfod adrodd yn ôl ar y mater i'r Gweinidog. Bydd pwyllgorau sgriwtini hefyd yn gallu mynnu bod aelodau'r Bwrdd yn ymddangos ger eu bron i gyflwyno tystiolaeth. Bydd Gweinidogion hefyd yn medru gosod mesuriadau perfformiad os yw Bwrdd yn araf yn sefydlu ei drefniadau perfformiad ei hunan.

**2.5** Rhagwelir bydd proses sgriwtini'r Cynulliad Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r Mesur yn mynd rhagddo dros yr wythnosau nesaf gyda'r bwriad o dderbyn Cysyniad Brenhinol erbyn Ebrill, 2015. Bydd pob corff cyhoeddus yn ddarostyngedig i ddyletswyddau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o Ebrill, 2016 er nad yw'r cerrig milltir cysylltiedig â dyletswyddau'r Ddeddf arfaethedig wedi'u cadarnhau hyd yma.

## 3. BLAENORIAETHAU ALLWEDDOL BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN

3.1 Bydd y Pwyllgor Sgriwtini'n ymwybodol o daith drawsnewid Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn dros y misoedd diwethaf. Un o'r prif dasgau oedd cefnogi'r Bwrdd i gytuno nifer bychain o brif flaenoriaethau er eu cyflawni dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Gwelwyd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd yn cadarnhau'r Blaenoriaethau Allweddol canlynol:



3.2 Gwelwyd y Bwrdd hefyd yn dirprwyo cyfrifoldeb arweiniol ar gyfer pob Blaenoriaeth Allweddol i aelodau'r BGLl wedi'u henwi fel a ganlyn:

- **Pobl Hŷn** – Bwrdd Iechyd (Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr/Athro Jerry Hunter, Prifysgol Bangor yn cymryd cyd gyfrifoldeb dros dro tan y cadarnheir manylion y sawl sy'n arwain o'r Bwrdd Iechyd);
- **Teuluoedd Camweithredol** – Sup. Peter Newton, Heddlu Gogledd Cymru;
- **Cymunedau Cynaladwy/Adfywio Cymunedol** – Dilwyn Williams, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd.

Mae arweinwyr ffrydiau gwaith y Blaenoriaethau Allweddol yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith datblygu, dadgloi unrhyw rwystrau i gynnydd ac adrodd yn ôl ar gynnydd i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

3.3 Mae'r cyfnod datblygu cyfredol (Rhagfyr, 2014 – Mehefin, 2015) yn blaenoriaethu gwaith eglurhau:

- Cynigion ar gyfer gwella perfformiad trwy gydweithio;
- Allbynnau dinasydd a sefydliadol a ddymunir fesul Cynnig ar gyfer pob partner BGLl;
- Sail tystiolaeth ar gyfer pob Cynnig;
- Cyfraniad partneriaid y BGLl at bob ffrwd gwaith;
- Strwythur cyflawni a llywodraethu o dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i wireddu pob Blaenoriaeth Allweddol a Galluogwr.

Ystyrir cynigion drafft lefel uchel ar ffrydiau gwaith y 3 Blaenoriaeth Allweddol yng nghyfarfod nesaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i'w gynnal ar 31 Mawrth, 2015.

Hyd yma, mae'r ffrwd gwaith ar y trywydd cywir ac yn unol â'r amserlen.

## 4. YSTYRIAETHAU'R PWYLLGOR GWAITH ANFFURFIOL

Rhoddwyd ystyriaeth mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith Anffurfiol a gynhaliwyd ar 26 Ionawr, 2015 i oblygiadau Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Penderfynwyd:

- Oedi rhag weithredu ar ofynion datblygu cynaliadwy Mesur Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – er mwyn dysgu gan eraill;
- Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau ddeddfwriaeth arfaethedig Cenedlaethau'r Dyfodol trwy Aelodau Pwyllgorau Sgriwtini;
- Diweddariadau/gwaith codi ymwybyddiaeth pellach i fod yn rhan o sesiynau briffio misol y Cyngor i Aelodau Etholedig.

## 5. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini:

**A1** Nodi penderfyniad y Pwyllgor Gwaith Anffurfiol yn ei gyfarfod ar 26 Ionawr, 2015 i oedi rhag weithredu ar ofynion datblygu cynaliadwy Mesur Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn dysgu o brofiadau eraill (sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot);

**A2** Gadarnhau'r angen i barhau i godi ymwybyddiaeth fel rhan o baratoadau'r Cyngor ar gyfer y ddeddfwriaeth newydd;

**A3** Nodi disgwyliadau'r Bil ar ddatblygu cynaliadwy ac yn arbennig rôl craffwyr i'r dyfodol;

**A4** Nodi cynnydd hyd yma ar ffrwd gwaith Blaenoriaethau Allweddol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

| **CYNGOR SIR YNYS MôN** | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mawrth 2015** |
| **PWNC :** | **Diweddariad blynyddol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Teitl:**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Catherine E Roberts**<br>**Rheolwr Cyflawni Diogelwch Cymunedol, gwynedd ac Ynys Môn**<br>**01286 679047(2047)**<br>**CatherineEirlysRoberts@gwynedd.gov.uk** |

**1.00 PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.01 Darparu trosolwg i'r Aelodau o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd (PDC) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**2.00 CEFNDIR**

2.01 Mae gofyn i'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol adrodd yn ffurfiol i'r pwyllgor hwn pob blwyddyn i gyflwyno trosolwg o'r gweithgareddau yn ystod y deuddeg mis diwethaf. Mae hyn yn sicrhau bod y Bartneriaeth yn cyflawni ei hymrwymiadau yn unol ag adrannau 19 a 20, Deddf Cyfiawnder Troseddol a'r Heddlu 2006. Daeth y ddeddfwriaeth i rym yng Nghymru ar 1 Hydref 2009 drwy Reoliadau Trosedd ac Anhrefn (Trosolwg a Chraffu) 2009.
**Dyletswydd y pwyllgor yw craffu ar waith y Bartneriaeth, yn hytrach na gwaith yr aelodau unigol.**

2.02 Mae'n ddyletswydd statudol ar **Awdurdodau Lleol** yn unol â Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998, a'r diwygiadau dilynol yn sgil Deddf Heddlu a Chyfiawnder Troseddol yn 2002 a 2006, i weithio mewn partneriaeth gyda'r **Heddlu, y gwasanaeth Iechyd, y gwasanaeth Prawf a'r gwasanaeth Tân ac Achub** i roi sylw i'r agenda diogelwch cymunedol yn lleol. Dyma'r asiantaethau sy'n ffurfio'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae gan y bartneriaeth ddyletswydd i ymdrin â –

- Throsedd ac Anhrefn
- Camddefnyddio Sylweddau
- Lleihau aildroseddu
- Cyflawni asesiad strategol i adnabod blaenoriaethau (gwaith a gynhelir ar sail ranbarthol bellach)
- Rhoi cynlluniau ar waith i ymdrin â'r blaenoriaethau hyn (mae cynllun bellach yn bodoli ar sail ranbarthol a lleol)

2.03 Mae partneriaeth wedi bodoli yn Ynys Môn ac yng Ngwynedd ers 1998. Mae'r ddau awdurdod lleol ar y cyd yn darparu rheolwr a swyddog monitro er mwyn cefnogi a gweinyddu'r Bartneriaeth, ac i dderbyn, gweinyddu a monitro'r grantiau a dderbynnir. Mae'n bosib y gallai'r adnodd yma leihau yn y dyfodol o ganlyniad i'r toriadau ariannol presennol. Mae swyddogion eraill sy'n cael eu hariannu drwy grantiau i weithio ar ffrydiau gwaith penodol.

## 3.00 AILSTRWYTHURO'R BARTNERIAETH

3.01 Mae strwythur partneriaeth y ddwy Sir wedi'i sefydlu ers dwy flynedd, ac yn eistedd o dan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sirol (BGLl) ar gyfer y ddwy sir. Penderfynodd y BGLl ar ei flaenoriaethau ym mis Rhagfyr 2014, ac nid yw'r rhain yn cynnwys meysydd gwaith penodol ar gyfer y PDC. Ers yr adroddiad diwethaf, mae'r Bwrdd Cymunedau Diogel rhanbarthol (Gogledd Cymru) (BCD) hefyd wedi pennu cylch gorchwyl a strwythur llywodraethu newydd. Mae'r Bwrdd bellach yn bwyllgor ymgynghorol, ac wedi cytuno ar ei brif dasgau, sydd wedi'u rhestru isod –

| | |
|---|---|
| a. | Comisiynu gwasanaethau a ariennir drwy gyfrwng grantiau rhanbarthol penodol |
| b. | Atebolrwydd strategol ar gyfer Bwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru |
| c. | Sefydlu fframwaith cyffredin a chyson ar gyfer cyflawni gwaith strategol, tactegol a gweithredol ar lefelau rhanbarthol, isranbarthol a lleol, a hynny drwy gynhyrchu asesiad strategol a chynllun diogelwch cymunedol blynyddol (bydd strwythur cyfatebol tebyg hefyd yn cael ei dilyn ym maes cyfiawnder ieuenctid). |
| d. | Nodi blaenoriaethau a rennir a/neu sy'n gyffredin ym meysydd diogelwch cymunedol a chyfiawnder ieuenctid. |
| e. | Gweithredu fel llais cynrychioliadol ffurfiol i ddylanwadau ar Lywodraeth Cymru, y Swyddfa Gartref a'r Corff Heddlu lleol. |

3.02 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwelwyd cynnydd da yn y modd y mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol gogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd. Sefydlu Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru ym mis Gorffennaf 2012 oedd y datblygiad mwyaf arwyddocaol yn rhanbarthol. Mae'r Bwrdd hwn yn cynrychioli partneriaeth rhwng yr holl awdurdodau statudol yn y rhanbarth (yn unol â diffiniad Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998), ynghyd â'r sector gwirfoddol, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu.

3.03 Ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn, bu nifer o ddatblygiadau'n ymwneud â'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA), sef y Bwrdd newydd rhanbarthol sy'n gyfrifol am gomisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Ngogledd Cymru. Dyma'r prif newidiadau –

- Datblygu Bwrdd rhanbarthol, sy'n gyfrifol am gyflawni swyddogaeth statudol y PDC ar lefel ranbarthol. Mae'r BCA bellach wedi'i sefydlu, ac nid oes Tîm Gweithredol Camddefnyddio Sylweddau (SMAT) yng Ngwynedd nac yn Ynys Môn.
- Datblygu strategaeth comisiynu camddefnyddio sylweddau rhanbarthol ar gyfer Gogledd Cymru, sydd bellach wedi'i chwblhau.
- Mae'r gronfa camddefnyddio sylweddau bellach wedi'i throsglwyddo yn grant rhanbarthol, gyda Wrecsam yn gweithredu fel y Bancer rhanbarthol. Bellach, nid oes Cydlynydd Camddefnyddio Sylweddau ym mhob Sir, ond yn hytrach ceir tîm sy'n cynnwys – Rheolwr rhanbarthol a thri cydlynydd rhanbarthol (dau wedi'u lleoli yn y Siroedd), ynghyd â swyddog cyllid.

## 4.00 <u>YSTYRIAETHAU</u>

4.01 Mae'n amlwg fod gweithio mewn partneriaeth yn gwella sut mae asiantaethau yn ymdrin â throsedd ac anhrefn. Mae cyfraddau'r troseddau a gofnodir yn parhau i ostwng. Ceir isod grynodeb o rai o'r prif ddarganfyddiadau:

**Mae llai o droseddau yn cael eu cofnodi yn Ynys Môn a Gwynedd nawr nag oedd 4 bedair blynedd yn ôl**

Mae llai o droseddau yn cael eu cofnodi yn Ynys Môn a Gwynedd nawr nag yn 2011. Wrth gymharu'r ffigurau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2011 gyda'r un cyfnod yn 2014;

yn Ynys Môn cafwyd gostyngiad o 628 yn nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt (-19%), ac yng Ngwynedd cafwyd gostyngiad o 1493 yn nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt (-20%).

Yn ogystal, bu nifer o ostyngiadau eraill penodol;

- 97 yn llai o droseddau treisgar yn erbyn y person, gostyngiad o 11%
- 55 yn llai o achosion o fyrgleriaeth nad oeddynt yn ddomestig, gostyngiad o 25%.
- 118 yn llai o ddigwyddiadau o ddwyn a thrin, gostyngiad o 15%
- 66 yn llai o droseddau'n ymwneud â chyffuriau, gostyngiad o 32%

4.02 Bellach mae Cynllun Strategol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gynllun rhanbarthol. Mae'r cynllun ar gyfer Gogledd Cymru ar ffurf drafft ar hyn o bryd – nodir yr ardaloedd blaenoriaeth yn y tabl isod, **ond maent yn cael eu hadolygu gan weithgor rhanbarthol er mwyn adlewyrchu canfyddiadau dogfen asesu strategol a gyhoeddwyd yn ddiweddar.**

4.03 Blaenoriaethau asesiad strategol Gogledd Cymru am y 12 mis nesaf

- Treisio (rhagwelir cynnydd)
- Troseddau Rhywiol Difrifol (rhagwelir y bydd yn aros yn debyg neu'n codi)
- Ecsbloetio plant yn rhywiol (rhagwelir cynnydd)
- Byrgleriaeth o Dai (Parhau i ostwng)
- Seiberdroseddu (rhagwelir cynnydd)
- Cam-drin domestig (parhau ar gynnydd)
- Caethwasiaeth fodern (bygythiad sy'n dod i'r amlwg)
- Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol, cyffuriau (dim newid)
- Ymddygiad gwrthgymdeithasol (parhau i ostwng)
- Troseddau'n ymwneud â cherbydau (parhau i ostwng)
- Dwyn o siopau (Cyson)
- Mathau eraill o ddwyn (Cyson)
- Difrod troseddol (gostyngiad bach)
- Cynnau tân yn fwriadol (parhau i ostwng)

Yn y ddogfen, nodwyd y casgliadau strategol a ganlyn mewn perthynas â'r achosion/ffactorau sy'n cyfrannu at droseddu

- Camddefnyddio cyffuriau ac alcohol
- ***Dioddefwyr a throseddwyr yn agored i broblemau iechyd meddwl***
- Dioddefwyr yn wynebu bygythiadau, a mwy o gyfleoedd i droseddwyr o ganlyniad i ddatblygiadau technolegol (o dwyll lefel isel i egsbloetio plant yn rhywiol - CSE)
- ***Troseddau cudd (troseddau nad ydynt yn cael eu hadrodd, megis CSE, caethwasiaeth, treisio a cham-drin domestig)***

4.05 Meysydd blaenoriaeth Gogledd Cymru - (**yn cael eu hadolygu ac i'w diweddaru)**

| Blaenoriaeth | Deilliannau | Dangosyddion Perfformiad |
|---|---|---|
| Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol | Bydd pobl yn fwy ymwybodol o droseddau cam-drin domestig a thrais rhywiol, ac yn fwy hyderus i adrodd amdanynt<br><br>Bydd pobl ifanc yn ymwybodol o natur ac oblygiadau trais rhywiol, ac yn | Nifer y digwyddiadau trais domestig yr adroddir amdanynt i Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Nifer y troseddau rhywiol yr adroddir amdanynt i Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Pobl ifanc yn meddu |

| | | |
|---|---|---|
| | gwybod ble i ganfod cefnogaeth<br><br>Ymdrin yn effeithiol y tro cyntaf ag achosion risg uchel o gam-drin domestig drwy ymyrraeth MARAC llwyddiannus | ar wybodaeth dda am drais rhywiol (monitro drwy arolygon ymyraethau post)<br><br>Nifer yr achosion a gyfeiriwyd at MARAC fwy nag unwaith |
| Trosedd Gaffaelgar | Nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg yn lleol mewn perthynas â throsedd gaffaelgar a datblygu ymatebion addas ac wedi'u targedu i'r tueddiadau hynny.<br><br>Rhoi sylw ar y cyd i'r rhai hynny sy'n peri'r niwed mwyaf yn ein cymunedau | Nifer y troseddau caffaelgar yr adroddir amdanynt<br><br>Nifer y troseddau caffaelgar a wneir gan aildroseddwyr |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | Cefnogi dioddefwyr risg uchel a phobl sy'n dioddef ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro<br><br>Darparu ymyraethau addas i broblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol a nodir yn lleol yn ein cymunedau | Nifer y bobl sy'n dioddef dro ar ôl tro o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol<br><br>Nifer y digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yr adroddir amdanynt |
| Camddefnyddio Sylweddau | Gwella argaeledd ac ansawdd addysg, gwasanaethau atal a thriniaeth a chymorth perthnasol, gan roi mwy o bwyslais ar y berthynas rhwng alcohol, cyffuriau a throsedd | Cyflawni Dangosyddion Allweddol Llywodraeth Cymru ar wasanaethau camddefnyddio sylweddau |

5.00 **GWEITHGAREDDAU 2014/15**

Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r Bartneriaeth wedi bod yn

destun ailstrwythuro sylweddol iawn, yn rhanbarthol ac yn lleol. Mae'r holl arian grant a dderbynnir gan y PDC wedi newid. Mae'r adnoddau cefnogol wedi'u cwtogi ac mae rhai prosesau ailstrwythuro rhanbarthol yn parhau heb eu gorffen. Fodd bynnag, mae'r PDC wedi ymrwymo i ymgymryd â'r gweithgarwch mwyaf effeithiol a hawdd ei reoli er mwyn cyflawni ei ymrwymiadau statudol. Isod ceir rhestr o'r prif weithgareddau a gynhaliwyd dros y 12 mis diwethaf.

5.01 <u>Gweithgareddau a Chynnydd Rhanbarthol</u>

Mae Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru wedi'i sefydlu'n llawn. Mae aelodau lleol a Chyfarwyddwyr Awdurdodau lleol yn cynrychioli'r Awdurdodau Lleol ar y Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar y prif swyddogaethau a ganlyn -

i. Cymeradwyo Asesiad Strategol Trosedd ac Anhrefn Gogledd Cymru ar gyfer 2015/16
ii. Cytuno a chymeradwyo i gynhyrchu Cynllun Strategol Diogelwch Cymunedol rhanbarthol, fydd yn ymateb i ganfyddiadau'r asesiad strategol newydd
iii. Cadw trosolwg strategol ar Fwrdd Cynllunio Ardal Camddefnyddio Sylweddau sydd ar hyn o bryd yn gorwedd gyda BCD, ond sydd hefyd yn cael sylw lleol yn y PDC.
iv. Ymateb cydlynol i Gynllun 10,000 o Fywydau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru, sy'n ymwneud â cham-drin domestig.
v. Cysondeb yr agwedd tuag at grantiau a gaiff eu comisiynu'n rhanbarthol, sef y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid a Chronfa'r Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau – mae'r ddau ohonynt bellach yn grantiau rhanbarthol.
vi. Aelodaeth a chyfraniad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (PCC) sy'n galluogi'r berthynas ofynnol rhwng PDC a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
vii. Argymell Fframwaith Comisiynu ar gyfer y PCC, sydd hefyd yn eistedd gyda'r BCD ar sail ranbarthol

*Mae'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, neu'n mynd yn eu blaenau fel y dylent.*

5.02 <u>Gweithgareddau a Chynnydd Lleol</u>

Ar lefel leol, dyma rai o'r prif gerrig milltir:

i. Wedi ailstrwythuro strwythurau cefnogol y PDC, gan newid i strwythur dwy Sir. Efallai y bydd rhagor o newidiadau o ganlyniad i doriadau ariannol yr Awdurdodau Lleol.
ii. Arwain ar ddatblygu Cynllun Diogelwch Cymunedol rhanbarthol a chynllun gweithredu lleol, sy'n flynyddol ac yn barhaus.
iii. Adolygu holl is-grwpiau blaenorol y PDC er mwyn asesu a yw

ein hadnoddau gostyngol yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol, mae hyn bellach wedi'i gwblhau.

iv. Cydlynu'r ymateb rhanbarthol i'r Cynllun 10,000 o Fywydau Mwy Diogel – sy'n ymwneud â datblygiadau cam-drin domestig, sy'n parhau ar lefel leol

v. Ennill cymeradwyaeth ffurfiol i ariannu'r grantiau a ganlyn: Y Gronfa Diogelwch Cymunedol, Cronfa'r Cynllun Gweithredu Camddefnyddio Sylweddau, Grant Gwasanaethau Cam-drin Domestig a'r Gronfa Atal Troseddu Ieuenctid. Hyd yma y brif her fu colli rhai o'r cyfraniadau ariannol tuag at yr agenda Trais Domestig, sydd wedi arwain at orfod cwtogi rhai o'r gwasanaethau a gomisiynir gennym.

vi. Cynhaliwyd adolygiad Lladdiad Domestig yn Ngwynedd o fis Mawrth 2012 ymlaen, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014. Ym mis Hydref 2014 cynhaliwyd gweithdy ar gyfer cydweithwyr ar draws y rhanbarth, i rannu profiadau ac arfer da yn seiliedig ar ein profiad.

vii. Sefydlu grŵp dwy Sir i sicrhau cynnydd yn swyddogaeth y Cynllun Rheoli Troseddwyr yn Integredig (IOM), sydd bellach wedi'i gwblhau. IOAM yw un o'r prif brosiectau i fynd i'r afael â'r agenda i leihau aildroseddu.

viii. Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o'r Gynhadledd asesu risg amlasiantaethol (MARAC) yn y ddwy Sir gan CAADA (Achredwyr Cenedlaethol - Gweithredu ar y cyd yn erbyn Cam-drin Domestig). Rydym yn disgwyl am yr ymateb, a byddwn yn llunio cynllun i ymateb i'r argymhellion.

ix. Mae'r Bartneriaeth hefyd wedi penderfynu rhoi'r gorau i ddefnyddio camerâu symudol, o ganlyniad i ddiffyg arian a dibynadwyedd y camerâu. Mae'r Heddlu yn ystyried ceisio am ymyrraeth wahanol i ymdrin ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

x. Darparu cefnogaeth grŵp cynnal defnyddwyr gwasanaeth camddefnyddio sylweddau lleol yn Ynys Môn a Gwynedd (AGRO): rydym wedi llwyddo i gynnal yr ariannu ar gyfer y grŵp drwy gyfrwng y strwythur rhanbarthol am flwyddyn arall.

xi. Symud i ddull gweithio 'rheoli systemau proses' wrth fonitro meysydd blaenoriaeth i Bartneriaethau weithredu mewn modd strategol

xii. Wedi rhoi polisi cam-drin domestig ar waith yn y gweithle yn Awdurdodau Lleol Gwynedd ac Ynys Môn.

xiii. Addasu'r strwythurau cefnogaeth Camddefnyddio Sylweddau cyfredol i weddu i'r gofynion rhanbarthol newydd, fydd yn arwain at un cydlynydd i'r ddwy sir yn y dyfodol, yn gweithio'n bennaf fel adnodd rhanbarthol.

*Mae'r holl gamau gweithredu wedi'u cwblhau, neu'n mynd yn eu blaenau fel y dylent.*

5.03 Prif Gerrig Milltir yn y Flwyddyn i Ddod

i. Mae'r Prif Gwnstabl wedi cychwyn 'cyfrif-stoc' o'r PDC, sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Mae angen i ni gymryd rhan yn yr adolygiad hwnnw ac ymateb i'w ganfyddiadau.
ii. Bydd angen i ni ymateb i'r posibilrwydd o doriadau pellach i'r adnoddau o fewn y tîm cefnogol Diogelwch Cymunedol yr Awdurdodau Lleol, a dod i benderfyniad ar ba weithgarwch fydd yn bosib' o fewn y capasiti llai os bydd toriadau.
iii. Mae Llywodraeth Cymru wedi ein hysbysu y bydd y gronfa Cam-drin Domestig yn parhau am 12 mis arall, ond yn symud i fod yn gronfa ranbarthol ar ôl hynny. Ar hyn o bryd mae'n ariannu Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs) drwy gyfrwng sefydliadau'r trydydd sector, ynghyd â chydlynydd strategol yr Awdurdod Lleol. Bydd yn rhaid i ni ymateb i'r newidiadau hyn wrth iddynt ddatblygu.
iv. Parhau i gefnogi a chyfrannu at waith Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru, ac ymateb yn effeithiol i'r newidiadau posib mewn perthynas â strwythurau'r Bartneriaeth.
v. Parhau â'r gefnogaeth a'r mewnbwn i Gynllun Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru
vi. Gweithio'n effeithiol o fewn y strwythurau rhanbarthol newydd, i ddiogelu angen lleol ac i adnabod cyfleoedd ar sail ranbarthol pan fo hynny'n briodol
vii. Hwyluso'r adolygiad tair blynedd nesaf o strwythurau'r MARAC (Cynhadledd asesu risg amlasiantaethol i ddioddefwyr) cam-drin domestig lleol yn y ddwy Sir ac ymateb iddo. Mae'r adolygiad wedi cychwyn ers mis Rhagfyr 2014
viii. Gweithredu'r rhaglen waith ranbarthol i gynlluniau 10,000 o Fywydau Mwy Diogel
ix. Gweithio gyda'r broses o ailstrwythuro'r Byrddau Cynllunio Ardal i sicrhau ein bod yn medru diwallu anghenion yn rhanbarthol ac yn lleol o fewn y strwythur cefnogi newydd, gan reoli'r newidiadau i swyddi presennol yn effeithiol
x. Adolygu'r cysylltiadau gyda'r gwasanaethau Trwyddedu a Safonau Masnach i sicrhau bod prosesau effeithiol yn eu lle ar gyfer prawf prynu ac ati
xi. Ymateb i ddeilliant adolygiad Llywodraeth Cymru o wasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru. Mae hyn wedi arwain at Fesur newydd, nad yw wedi'i roi ar waith eto
xii. Gweithio gyda swyddfa Comisiynydd yr Heddlu i adolygu a hyrwyddo gwaith y Cydlynydd/wyr Gwrthgymdeithasol, sy'n cael ei ariannu drwy gronfa'r Comisiynwyr
xiii. Cyfrannu i gynllun Integredig y BGLl, a chyflwyno adroddiadau diweddaru yn ôl y gofyn
xiv. Datblygu cynlluniau gwariant rhanbarthol ar gyfer y Gronfa Atal Troseddau Ieuenctid, sydd hefyd wedi dod yn gronfa ranbarthol, i sicrhau y gwneir y defnydd gorau o adnoddau yn lleol
xv. Cyfrannu at Grŵp Rheoli Troseddwyr yn Integredig Gogledd Cymru

## 6.00 PRIF BENAWDAU

Mae llai o droseddau yn cael eu cofnodi yn Ynys Môn a Gwynedd nawr nag yn 2011. Wrth gymharu'r ffigurau rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2011 gyda'r un cyfnod yn 2014;

Yn Ynys Môn cafwyd gostyngiad o 628 yn nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt (-19%), ac yng Ngwynedd cafwyd gostyngiad o 1493 yn nifer y troseddau yr adroddwyd amdanynt (-20%).

Am y tro cyntaf, mae'r asesiad strategol wedi amlygu'r achosion a'r ffactorau sy'n gyfrifol am droseddu, ynghyd â'r sefyllfaoedd bregus sy'n arwain at bobl yn dioddef troseddu. Mae hyn felly'n arwain at broses gynllunio sy'n ataliol yn hytrach nag yn adweithiol.

Mae'n bosibl y bydd rhagor o gwtogi ar dîm cefnogol yr Awdurdod Lleol o ganlyniad i'r toriadau ariannol presennol. Petai hyn yn digwydd mae'n rhaid inni sicrhau bod y gweithgaredd sy'n parhau wedi'i ganolbwyntio ar y tasgau mwyaf addas.

Ers yr adroddiad diwethaf a gyflwynwyd i'r pwyllgor hwn, bu nifer o ddatblygiadau'n ymwneud â'r Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA), sef y Bwrdd newydd rhanbarthol sy'n gyfrifol am gomisiynu Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau yng Ngogledd Cymru. Mae'n rhaid i'r PDC lleol chwarae ei ran yn y dyfodol drwy ddylanwadu ar gomisiynu ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn.

Mae Bwrdd Cymunedau Diogel Gogledd Cymru bellach wedi'i sefydlu'n llawn. Mae aelodau lleol a Chyfarwyddwyr Awdurdodau Lleol yn cynrychioli'r Awdurdodau Lleol ar y Bwrdd. Eto, mae angen i Wynedd ac Ynys Môn gyfrannu'n llawn at y fforymau rhanbarthol.

Erbyn hyn cafwyd cytundeb i lunio Cynllun Strategol Diogelwch Cymunedol rhanbarthol. Mae'r cynllun hwn wedi'i adnewyddu'n unol â'r asesiad strategol newydd. Fodd bynnag, cytunwyd hefyd y byddai modd cynnwys amrywiadau lleol mewn unrhyw gynllun rhanbarthol yn y dyfodol.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd adolygiad ffurfiol o'r Gynhadledd asesu risg aml-asiantaethol (MARAC) yn y ddwy Sir gan CAADA (Achredwyr Cenedlaethol). Rydym yn disgwyl am yr ymateb, sy'n debygol o fod yn gadarnhaol, a byddwn yn llunio cynllun i ymateb i'r argymhellion.

## 7.00 ARGYMHELLION

7.01 Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Gwaith (16.03.15) Pwyllgor Sgriwtini Adfywio Partneriaeth (12.03.15).** |
| **Dyddiad:** | **12 Mawrth ac 16 Mawrth 2015** |
| **Pwnc:** | **Cynigion ar gyfer gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau gwelliannau i'r A5025 a phriffyrdd eraill i hwyluso cynigion datblygu Pŵer Niwclear Horizon.** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cyng. Richard Dew** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Dewi R Williams** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **Arwel R Roberts**<br>**01248 72311**<br>**arrht@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **D/B** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Rheswm dros adrodd:

1.1 I roi diweddariad i Aelodau ar y cynnydd gyda thrafodaethau gyda Pŵer Niwclear Horizon (PNH) mewn perthynas â gwaith posibl i adeiladu priffyrdd a gwneud y gwaith gwella sydd ei angen o ran yr A5025 a phriffyrdd eraill er mwyn hwyluso adeiladu a gweithrediad yr orsaf bŵer niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa.

Argymhellion:

1.2 Awdurdodi (a) bod y Cyngor fel awdurdod priffyrdd yn gwneud Cytundeb Cydweithio gyda PNH yn unol â'r Penawdau Telerau a nodir yn yr adroddiad hwn a (b) ffurfio unrhyw gytundebau neu weithredru ar bwerau pellach y bydd y Pennaeth Gwasanaeth (Amgylcheddol a Thechnegol), yn eu hystyried yn angenrheidiol i weithredu ar delerau'r Cytundeb Cydweithio ar waith ac i ganiatáu darparu unrhyw waith priffyrdd fydd wedi ei gynnwys yn nhelerau'r Cytundeb Cydweithio.

Rhesymau dros yr argymhelliad:

2.1 O ystyried yr amserlen y mae'r Cyngor yn ei ddeall sydd gan PNH mewn golwg i hyrwyddo'r gwaith priffyrdd, mae'n hanfodol bod trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhwng y Cyngor a PNH yn cael eu sefydlu mor fuan ag sy'n ymarferol. Byddai'r fframwaith ar gyfer y gwaith partneriaeth yn cael ei ddarparu dan y Cytundeb Cydweithredu yn y telerau a nodir yn y Penawdau Telerau.

2.2 Mae swyddogion wedi cael trafodaethau anffurfiol gyda PNH dros yr 18 mis diwethaf ar nifer o faterion yn gysylltiedig â datblygu Wylfa Newydd. Roedd rhan o'r trafodaethau hyn yn ymwneud â bwriadau PNH i ymgymryd â gwaith adeiladu a gwella priffyrdd neu i ariannu

hynny ar yr A5025 a ffyrdd eraill er mwyn hwyluso gwaith adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer niwclear newydd.

2.3 Yn y trafodaethau gyda Swyddogion, nodwyd nifer o faterion yr oedd angen eu hystyried ymhellach yng nghyd-destun bwrw ymlaen â chaniatáu'r gwaith hwn. Roeddent yn cynnwys dylunio, cynllunio, caffael, ymgynghori a phrynu tir. Rhoddodd y Pwyllgor Gwaith awdurdod i'r trafodaethau fynd yn eu blaenau rhwng swyddogion a PNH ar 9 Mehefin 2014 gyda'r bwriad o greu fframwaith i ganiatáu gweithio mewn partneriaeth ar y materion a nodwyd.

2.4 Fel sy'n angenrheidiol dan delerau'r caniatâd blaenorol, mae'r adroddiad hwn yn nodi'r Penawdau Telerau ar gyfer trefniant contractyddol arfaethedig (Cytundeb Cydweithio) a ddatblygwyd gan swyddogion i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith. Ar yr amod fod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon gyda'r Penawdau Telerau, gofynnir yn yr adroddiad am ganiatâd i'r Cyngor ffurfio Cytundeb Cydweithio gyda PNH yn unol â'r Penawdau Telerau fel y gellir gwneud y gwaith gwella ar y priffyrdd.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Y brif ystyriaeth yw'r dull o weithio mewn partneriaeth a chyfyngiadau hynny. Efallai y bydd gan y Cyngor rôl o ran hyrwyddo a chaffael gwaith priffyrdd byddai'n cael ei wneud ganddo yn ei gapasiti fel Awdurdod Priffyrdd. Rheswm y Cyngor dros weithio mewn partneriaeth yw er mwyn diogelu isadeilwaith y priffyrdd a sicrhau bod y gwaith yn cael ei ddylunio a'i wneud i'r safonau angenrheidiol ac y mae felly yn gweithredu er budd y cyhoedd.

Mae rôl y Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd a'r gwahaniad oddi wrth swyddogaethau eraill, yn arbennig fel Awdurdod lleol a chynllunio wedi'u hystyried ac fe wnaed darpariaeth ar gyfer hynny. Byddai'r Cytundeb Cydweithio yn cael ei ffurfio gan y Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd yn unig, ac ni fydd yn ymrwymo'r Cyngor i unrhyw swyddogaeth arall. Bydd yr asesiad priffyrdd o unrhyw geisiadau cynllunio'n cael ei wneud gan swyddogion nad ydynt â rhan yn y cytundeb partneriaeth ac na fyddant wedi cymryd rhan yn y gwaith dylunio.

Fel all trefniant partneriaeth beri risg o ran creu syniad fod y Cyngor yn cyn-benderfynu mewn perthynas â phenderfyniadau'n ymwneud â PNH, yn arbennig felly yn achos ceisiadau cynllunio. Tra bod mesurau wedi eu sefydlu lle i fynd i'r afael â hyn, yn ymarferol, fe all rhai problemau o ran canfyddiad barhau. Mae swyddogion o'r farn bod y pryder hwn yn cael ei orbwyso gan yr angen i weithio mewn partneriaeth i wneud y gwaith gwella angenrheidiol ar y ffyrdd a hynny i safon briodol ac o fewn amserlen y prosiect.

Bydd y Cyngor, wrth ffurfio'r Cytundeb Cydweithio, yn cytuno mewn egwyddor i ymarfer pwerau statudol yr Awdurdod Priffyrdd yn cynnwys y rhai pryniant gorfodol. Byddai ymarfer unrhyw bwerau statudol yn golygu rhoi ystyriaeth benodol i'r ffeithiau ac i'r amgylchiadau yn ôl yr angen

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar 9 Mehefin 2014 y byddid yn cyflwyno adroddiad yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried ar unrhyw gynnydd gyda threfniadau gweithio ar y cyd neu waith partneriaeth cyn y bydd y Cyngor yn cymeradwyo hynny. |

| CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill**<br><br>**Sylwadau gan Gwyndaf Jones, Prif Swyddog Cynllunio – Caniatadau ar gyfer Datblygiadau Ynni Mawr** | Mae'r Cytundeb Cydweithio'n ymwneud â swyddogaethau a chyfrifoldebau'r elfennau 'anstatudol' o'r gwaith gwella y mae angen ei wneud i'r ffyrdd sy'n gysylltiedig â'r orsaf bŵer niwclear newydd yn yr Wylfa.<br><br>Mae'n bwysig i'r Aelodau nad oes wnelo telerau'r Cytundeb â chyfrifoldebau Cynllunio 'statudol' yr Awdurdod. |

| | E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| 1. Crynodeb o Benawdau Telerau ar gyfer Cytundeb Cydweithio rhwng Cyngor Sir Ynys Môn fel Awdurdod Priffyrdd a Pŵer Niwclear Horizon. |

| **FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| Adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith 9 Mehefin 2014 ar Opsiynau mewn perthynas â sicrhau gwelliannau i'r A5025 i hyrwyddo bwriadau datblygu Pŵer Niwclear Horizon. |

**Atodiad 1**

**Cefndir i'r Gweithio Mewn Partneriaeth gyda Horizon**

**Cyflwyniad**

1.1 Bydd datblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa yn golygu gwella'r rhwydwaith priffyrdd presennol ym Môn. Mae'r Cyngor wedi nodi ei agwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ran yr asesiad o'r gwelliannau priffyrdd angenrheidiol sydd yn y Cyfarwyddyd Cynllunio Atodol (CCA). Mae hwn yn cydnabod yr angen am welliannau i'r A5025 a Lôn Nanner. Mae'r CCA yn nodi y bydd raid i welliannau o'r fath roi sylw i'r negeseuon polisi allweddol ynddo ac integreiddio gyda'r materion cludiant ehangach yn hytrach na chael eu trin fel pwyntiau cyfyngu yn sefyll ar eu pennau eu hunain.

1.2 Mae'r gwaith y bwriedir ei wneud gan PNH i wella'r rhwydwaith yn cynnwys rhannau newydd o briffyrdd a chroesffyrdd, gwelliannau i'r priffyrdd presennol a gwaith altro wedyn i'r priffyrdd sy'n bodoli. Lle bwriedir adeiladau rhannu newydd o briffyrdd, y Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd fydd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r rhain. Y Cyngor yn y pen draw sy'n gyfrifol am yr holl briffyrdd sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n gyhoeddus ym Môn ac felly mae angen iddo fod yn fodlon gyda dyluniad ac adeiladwaith unrhyw ffyrdd y daw'n gyfrifol amdanynt. Lle mae gwaith adeiladu a gwella ar briffyrdd yn cael eu hariannu gan ddatblygwr preifat, rhaid i waith o'r fath fod wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor fel Awdurdod Priffyrdd gyda threfniadau llym yn cael eu sefydlu i sicrhau ei fod yn cael ei wneud a'i gwblhau yn unol â gofynion y Cyngor. Mae Swyddogion Priffyrdd y Cyngor wedi cynnal trafodaethau gyda PNH i sefydlu sut y gallant weithio mewn partneriaeth i ddarparu gwelliannau ffyrdd o fewn y fframwaith statudol, i'r safon angenrheidiol ac o fewn yr amserlen.

Materion

2.1 Mae Swyddogion yn deall bod PNH yn gweithio i amserlen dynn o ran gwaith caniatáu a darparu gwaith adeiladu a gwella priffyrdd. Felly, mae angen sefydlu strategaeth glir yn y tymor byr i sicrhau y gellir symud ymlaen mewn da bryd gyda'r gwaith caniatáu, caffael a darparu. Bydd y strategaeth honno'n cael ei chytuno a'i rheoli dan delerau'r Cytundeb Cydweithio arfaethedig.

2.2 Bydd y Cytundeb Cydweithio'n cynnwys gwaith y mae angen ei wneud neu y bwriedir ei wneud mewn perthynas ag adeiladu a gweithredu'r adeilad niwclear newydd yn Wylfa ac yn cynnwys gwaith ar ffyrdd, llwybrau troed, llwybrau ceffylau a llwybrau beicio. Mae'r Penawdau Telerau yn nodi'r darpariaethau fyddai wedi eu cynnwys yn y Cytundeb Cydweithio ac mae'n darparu fframwaith ar gyfer symud ymlaen gyda manylion y gwaith.

2.3 Rhagwelir y bydd dyluniad y gwaith angenrheidiol yn cael ei wneud gan PNH a'u hymgynghorwyr a'i gytuno wedyn gan y Cyngor. Mae Swyddogion wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda PNH ac maent wedi edrych yn gyffredinol ar faterion dylunio. Fe all gwaith gael ei gaffael neu ei wneud gan y Cyngor ar gost PNH neu gan PNH yn uniongyrchol gan ddibynnu ar beth a gytunir a'r pwerau sydd ar gael ym mhob achos.

2.4 Bydd y gwaith y bwriedir ei wneud yn disgyn dan amrywiaeth o ddarpariaethau statudol a bydd angen i'r Cyngor ymarfer nifer o bwerau statudol. Fe all y rhain gynnwys darparu

mynediad i'r tir sy'n gysylltiedig gyda'r gwaith neu gwneud gorchmynion ffyrdd ochr, gorchmynion cau ffyrdd, gorchmynion rheoli traffig a gorchmynion dargyfeirio.

2.5 Er mwyn sicrhau y gall y gwaith symud yn ei flaen ar amser, bydd angen gwneud nifer o gytundebau yn dibynnu ar amgylchiadau penodol y gwaith. Fe all y cytundebau hyn gynnwys cytundebau Adran 38 (Mabwysiadu Priffyrdd), Adran 278 (Cytundebau Priffyrdd) a chytundebau contractyddol ac/neu asiantaeth ynghylch caffael gwaith, trosglwyddo tir ac ad-dalu costau.

2.6 Mae'r Penawdau Telerau a gytunwyd yn amlinellu sgôp y bartneriaeth ac maent yn cael eu crynhoi ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Argymhellir bod Aelodau'n ystyried yn arbennig y pwyntiau allweddol a ganlyn :-

a) Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud y Cytundeb Cydweithio hwn fel Awdurdod Priffyrdd yn unig; ni fydd yn ymrwymo nac yn effeithio ar unrhyw benderfyniad nac yn gweithredu ar ran y Cyngor mewn unrhyw gapasiti arall, yn cynnwys fel Awdurdod Cynllunio. Er mwyn sicrhau na fydd unrhyw wrthdaro'n codi, mae darpariaeth yn y Penawdau Telerau sy'n golygu y gall Swyddogion ar wahân gymryd rhan yn y trefniadau gweithio mewn partneriaeth dan y cytundeb hwn yn hytrach na'r swyddogion fydd cyflawni'r swyddogaeth gynllunio a chaniatáu.

b) Mae'r Penawdau Telerau yn darparu strwythur ar gyfer strategaethau caniatáu a chaffael sydd i'w fabwysiadu o dan y trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn dilyn cael cytundeb ar y cynigion manwl.

c) Byddai'r Cytundeb Cydweithio arfaethedig yn ymwneud â gwaith ar Lôn Nanner a'r A5025 gyda'r gallu i ychwanegu gwaith arall i briffyrdd lle cytunir ar hynny.

d) Drwy wneud y Cytundeb Cydweithio, mae'r Cyngor yn cytuno mewn egwyddor i ddefnyddio pwerau prynu gorfodol os bydd angen hynny i ddarparu'r tir ar gyfer y gwaith priffyrdd. O ystyried natur prynu gorfodol byddai penderfyniad a ddylid ymarfer y pwerau hyn ai peidio angen cael ei wneud ar sail achos wrth achos ac nid yw'r ddarpariaeth yn ymrwymo'r cyngor i ddefnyddio'r pwerau hyn mewn unrhyw achos arbennig lle yr ystyrir nad yw'r gofyniad o ran budd cyhoeddus neu unrhyw anghenion arall wedi'i fodloni.

e) Mae'r Cytundeb Cydweithio yn rhagweld y bydd y Cyngor yn ei gapasiti fel Awdurdod Priffyrdd yn ymgymryd â phrosesau statudol ac yn defnyddio pwerau statudol i sicrhau y gall y gwaith gael ei wneud; mae hyn yn cynnwys gwneud gorchmynion o dan bwerau'r Ddeddf Priffyrdd lle bo'r angen.

f) Bydd PNH yn gyfrifol am gostau'r Cyngor yn gwneud y gwaith o dan y trefniadau gweithio mewn partneriaeth. Bydd hyn yn cynnwys costau staff mewnol a ffioedd ymgynghorwyr allanol. Bydd unrhyw gostau gan y Cyngor o ran cyflawni unrhyw agwedd ar y gwaith gwella priffyrdd, prynu unrhyw dir neu unrhyw bwerau statudol i brynu tir hefyd yn cael ei dalu gan PNH.

g) Cytundebau pellach - bydd y Cytundeb Cydweithio yn gallugoi'r Cyngor i lunio unrhyw ddogfennau eraill y bydd ei hangen i weithredu'r cytundeb. Bydd hyn yn cynnwys cytundebau Adran 278 ynglŷn â gwaith priffyrdd, trefniadau contractyddol

yn ymwneud â chostau defnyddio unrhyw bwerau prynu gorfodol, cytundebau'n ymwneud â chaffael, cyflogi a thalu ymgynghorwyr, a chontractwyr. Trwy gyfrannu at y Cytundeb Cydweithio, byddai modd i'r Cyngor ymrwymo i'r cytundebau pellach hyn yn ôl yr angen (ar yr amod bod unrhyw brawf/gofynion statudol mewn perthynas â phob cytundeb arfaethedig yn cael eu bodloni).

**Crynodeb o Benawdau Telerau'r Cytundeb Cydweithio rhwng Cyngor Sir Ynys Môn fel Awdurdod Priffyrdd a Pŵer Niwclear Horizon Wylfa Cyf.**

1. Bydd y cytundeb yn cynnwys unrhyw waith sy'n effeithio priffyrdd o fewn ardal weinyddol CSYM gan gynnwys yn benodol Lôn Nanner a'r A5025. Gellir cynnwys ffyrdd eraill trwy gytundeb.

2. Mae'r Penawdau Telerau yn dweud bod angen i'r partïon weithio gyda'i gilydd i ddarparu'r gwaith priffyrdd. Er mwyn gwneud hyn, bydd y partïon yn cytuno ar drefniadau cydweithio (yn cynnwys dogfen yn rhannu protocol a phrotocol y wasg) a strategaethau caniatáu a chaffael yn nodi sut y bydd pob proses yn cael ei rhedeg a pha barti fydd yn arwain ar ba un o'r elfennau'r prosiect. Bydd hyn hefyd yn cynnwys proses ar gyfer cytuno at ddyluniad unrhyw waith gwella a fwriedir.

3. Mae PNH yn cytuno i dalu costau i gefnogi CSYM i ddarparu staff ar gyfer y prosiect gwella a'i gostau o ran cael ymgynghorwyr neu gontractwyr allanol lle mae hynny'n briodol.

4. Mae PNH yn cytuno i dalu costau gwneud y gwelliannau priffyrdd.

5. Mae CSYM fel Awdurdod Priffyrdd yn cytuno i gefnogi mewn egwyddor y defnydd o bwerau prynu gorfodol i ddarparu gwaith priffyrdd.

6. Bydd y cytundeb yn parhau mewn grym am flwyddyn yn dilyn gwneud y darn olaf o'r gwaith gwella ar y priffyrdd oni bai iddo gael ei derfynu ynghynt. Gall y naill barti neu'r llall ddwyn y cytundeb i ben ar ôl rhoi rhybudd priodol.

7. Bydd gweithdrefn i ddatrys anghydfod yn nodi sut y gall unrhyw anghydfod gael ei uwch-gyfeirio o fewn y Cyngor a PNH cyn ystyried datrys yr anghydfod yn allanol (yn cynnwys camau yn y llysoedd) yn cael ei chynnwys.

8. Bydd CSYM yn neilltuo swyddogion gwahanol i weithio o dan y cytundeb i'r swyddogion fydd wedi eu dyrannu i weithio ar unrhyw gais cynllunio neu gais perthnasol.

| CYNGOR SIR YNYS MôN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD AT:** | **Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio** |
| **DYDDIAD:** | **12 Mawrth 2015** |
| **PWNC :** | **Cyllideb Blynyddoedd Cynnar** |
| **AELODAU PORTFOLIO( AU):** | **Ieuan Williams** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD**<br>**Rhif Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Gareth Jones (Swyddog Addysg)**<br>**01248 752947**<br>**dgjed@ynysmon.gov.uk** |

## 1.0 ARGYMHELLION

A1 - Y Cyngor i leihau Cyllideb y Blynyddoedd Cynnar o 10% o gymharu gyda chyllideb 14/15 o £483,690.

A2 - I rannu'r gyllideb fel a ganlyn-

| Eitem | Cyllideb |
|---|---|
| Cyfanswm | 435,321 |
| Cyfraniadau i'r 48 Cylch unigol | 364,266 |
| Cyfraniadau i'r cyrff cenedlaethol ;MM a WPPA | 24,515 |
| Cyfraniadau tuag at gostau adeiladau ychwanegol cylchoedd penodol | 16,984 |
| Anghenion hyfforddiant staff y cylchoedd | 6,920 |
| Cynllun Cyfeirio<br>(cefnogaeth i blant gydag anghenion addysgol arbennig) | 20,000 |
| Wrth gefn | 3,000 |

**2.0 <u>RHESWM</u>**

2.1 Yn dilyn trafodaethau'r llynedd ar y gyllideb uchod ffurfiodd y Cyngor Grŵp Tasg a Gorffen i drafod y gyllideb yn fanylach gan anelu am gytundeb ar y ffordd ymlaen. Aelodaeth y grŵp oedd aelodau etholedig, cynrychiolwyr Mudiad Meithrin a'r Gymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru, penaethiaid ysgolion cynradd a swyddogion yr Awdurdod. Bu'r Grŵp gyfarfod pedair gwaith o dan gadeiryddiaeth yr Aelod Portffolio a chafwyd cytundeb ar lefel y gefnogaeth i'r blynyddoedd cynnar. Bydd y Grŵp yn parhau fel Grŵp Blynyddoedd Cynnar i drafod trefniadau cyllido i'r dyfodol.

2.2 Y gyllideb i'w rannu fel a ganlyn

i) Cyfraniadau i'r 48 Cylch unigol

Mae'r Awdurdod yn darparu cyfraniad tuag at y costau o gynnal y cylchoedd unigol er mwyn sicrhau'r ddarpariaeth statudol o 10 awr o addysg yr wythnos i blant o ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 3 oed. Mae gweddill y plant sydd yn mynychu'r cylch yn talu ffi.

Hyn oedd prif ffocws y trafodaethau. Cydnabyddir bod angen i'r Awdurdod newid y ffordd y mae'n cyfrannu i'r cylchoedd unigol gan fod gwahaniaeth mawr yn niferoedd y cylchoedd. Cytunwyd y byddai'r Awdurdod yn newid ei ddull o gefnogi'n raddol fel bod lleoliadau'n cael amser i ddatblygu cynlluniau busnes manwl iawn gyda chymorth eu mudiadau cenedlaethol. Mae pob lleoliad yn gorff annibynnol gyda phwyllgor, person cofrestredig ac yn aelod o un o ddau fudiad cenedlaethol.

Yn hanesyddol roedd y cylchoedd llai, rhai gyda hyd at 16 o blant o fewn yr oedran statudol, yn derbyn cyllid yn seiliedig ar ddarpariaeth o ddau aelod o staff a chyfraniad tuag at bwrcasu adnoddau. Roedd y cylchoedd gyda niferoedd uwch yn derbyn cyllid am un aelod o staff ychwanegol am fod 8 plentyn uwchben y 16. Roedd y cylchoedd yma'n derbyn cyfraniad uwch tuag at adnoddau. Mae'r gymhareb o un staff i bob 8 plentyn yn seiliedig ar y gymhareb sydd yn ddisgwyliedig i blant 3 I 5 oed a addysgir o fewn y Cyfnod Sylfaen.

Am y flwyddyn gyllidol 14/15 torrwyd y cyfraniad am adnoddau yn gyfan gwbl ynghyd a thoriadau i'r staffio. Mae'r toriad am 15/16 yn barhad o'r broses yma gyda man addasiadau i adlewyrchu gwir niferoedd plant o fewn yr oedran statudol sydd yn mynychu'r cylch. Bydd y Grŵp Blynyddoedd Cynnar yn parhau i edrych ar ffyrdd gwahanol o gyfrannu i'r cylchoedd wrth ystyried niferoedd plant.

ii) Cyfraniadau i'r cyrff cenedlaethol ;Mudiad Meithrin a'r Gymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (WPPA). Mae hyn tuag at eu costau o ddarparu cefnogaeth leol i'r cylchoedd unigol.

iii) Cyfraniadau tuag at gostau adeiladau ychwanegol cylchoedd penodol. Mae llawer o'r cylchoedd yn cyfarfod o fewn yr ysgol leol ac felly nid oes ganddynt gostau adeiladau cysylltiedig ond mae eraill yn cyfarfod o fewn adeiladau eraill ac mae angen talu rhent a chostau eraill. Mae'r Awdurdod yn cyfrannu tuag at y costau yma.

iv) Anghenion hyfforddiant staff y cylchoedd. Mae hyn tuag at gostau cynnal cyrsiau statudol fel Amddiffyn Plant a Chymorth Cyntaf.

v) Cynllun Cyfeirio. Mae hyn i ddarparu cefnogaeth i blant gydag anghenion addysgol arbennig drwy gyflogi staff ychwanegol. Nid yw'r rhan yma o'r gyllideb wedi gweld toriad o lefel cyllido 14/15.

Awdur: Gareth Jones
Teitl Swydd: Swyddog Addysg
Dyddiad: Mawrth 2015.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

SCRUTINY

# RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cadeirydd: Y Cynghorydd Derlwyn Hughes
Is-Gadeirydd: Y Cynghorydd Alun Mummery

Y tabl isod yw Rhaglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio o fis Mai 2014 i fis Mai 2015. Adroddir ar y Rhaglen Waith i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini i bwrpas adolygu ei chynnwys, ystyried eitemau newydd neu ohirio/tynnu eitemau yn ôl.

Cyswllt: Geraint Wyn Roberts (Swyddog Sgriwtini)
Ffôn: 01248 752039
E-bost: gwrce@ynysmon.gov.uk

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| **13 Mai 2014** | Enwebiadau Pwyllgor i'r Panel Rhiant Corfforaethol | Enwebu aelod o'r Pwyllgor at y Panel sy'n gweithredu ar ran y Cyngor, sy'n sicrhau gwasanaethau i blant a pobl ifanc mewn gofal o safon uchel. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Cynllun Integredig Sengl | Ymgynghoriad | |
| | Clirio ffeiliau o hen Ysgol y Graig | Sgriwtini | |
| | | | |
| **11 Gorffennaf 2014** | Cyfarwyddwyddyd Cynllunio Atodol – Adeilad Niwcliar Newydd | Sgriwtini o flean penderfyniad | Siambr y Cyngor/10.30 yb |
| | | | |
| **24 Gorffennaf 2014** | Heddlu Gogledd Cymru | Cyflwyniad gan Heddlu Gopgledd Cymru are eu canolfan Cyfathrebu. | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Trefniadau Rhanbarthol a Lleol i Ddiogelu Plant ac Oedolion | Sgriwtini o flean penderfyniad | |
| | Comisiynu Gwasanaeth Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc yn Rhanbarthol | Diweddariad | |
| | Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Ynys Fenter | Mae tri bwrdd wedi eu sefydlu gan y Cyngor i yrru newid a gwelliant ac i gouchwylio rhaglen o waith. Yn disgyn o cylch gorchwyl y Pwyllgor yma yw " Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Ynys Fenter" ac y bydd diweddariad yn cael ei roi ar y sefyllfa bresennol a gwaith ar y gweill. | |
| | | | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| **25 Medi 2014** | Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ynys Mon ac Gwynedd | Gwybodaeth | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Cymunedau Cyntaf Môn | Monitro cynnydd | |
| | Strategaeth Tai | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Ffioedd a Thaliadau ar gyfer cychod pleser /wedi eu llogi o amgylch Ynys Môn | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Rhaglen Gwaith Bwrdd Cyflawni Iechyd a Gofal Integredig ar Gyfer Ynys Môn | Gwybodaeth | |
| | Gwasanaeth Tan ac Achub Gogledd Cymru- Cynllun Gwella a Lleihau Risg 2015-2016 | Ymgynghoriad | |
| | | | |
| **27 Tachwedd 2014** | Cynllun Integredig Sengl | Diweddariad ar :<br>• Cynllun Integredig Môn a Gwynedd; ac<br>• Sgriwtni ar y cyd o'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol gyda Cyngor Gwynedd | |
| | Budd-dal Cyfrif Refeniw Tai | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |
| | Newidiadau i Polisi Grantiau Tai | Sgriwtini o flaen penderfyniad | |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob  Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| | GwE- Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i Ogledd Cymru | Perfformiad yn erbyn cytundeb lefel gwasanaeth | |
| | Broses Cynrychiolaeth a Cwynion Gwasanethau Cymdeithasol  13-14 ( Adroddiad Blynyddol Cwynion) | Perfformiad | |
| | Diogelu Oedolion | Sgriwtini o flaen   penderfyniad | |
| | | | |
| **14 Ionawr 2015** | Craffu Bwrdd Gwasanaethau Lleol- Opsiynau | Diweddariad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Fframwaith Adrodd Blynyddol - adolygiad blynyddol a gwerthusiad  o berfformiad 2013/2014 llythyr gan CSSIW | Perfformiad | |
| | Diogelu Corfforaethol | Perfformiad | |
| | | | |
| **12 Mawrth 2015** | Bill Lleisiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) | Diweddariad | Ystafell Pwyllgor 1 / 2yp |
| | Diogelwch Cymunedol-  Trosolwg Blynyddol  ar Partneriaeth Diogelwch Cymunedol. | Perfformiad | |
| | Gwelliannau i  Priffyrdd- Cydweithio gyda Horizon | Sgriwtini o flaen   penderfyniad | |
| | Lleihau Grantiau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar | Sgriwtini o flaen   penderfyniad | |
| | | | |
| **12 Mai 2015** | Strategaeth Cefnogi Teleuodd | Sgriwtini o flaen   penderfyniad | Ystafell Pwyllgor 1/2yp ( |

| Dyddiad y Cyfarfod | Eitem | Pwrpas | Lleoliad/Amser cychwyn |
|---|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog ar phob Rhaglen Pwyllgor:**<br>• **Ymddiheuriad**<br>• **Cofnodion**<br>• **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd neu'r Is-Gadeirydd.**<br>• **Rhaglen Gwaith** | | | |
| | | | angen chadarnhau amser dechrau) |
| | | | |

This page is intentionally left blank